Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Gwastraff bwyd

## Tachewedd 2013

## Cyflwyniad

Mae 15 miliwn tunnell o wastraff bwyd yn cael ei daflu ymaith yn y DU bob blwyddyn, ac mae goblygiadau ariannol, amgylcheddol a moesegol i hynny.

Mae Cymru wedi gosod targedau i leihau gwastraff, ac mae'r targedau hynny'n debyg i rai'r gweinyddiaethau eraill. Cawsant eu llunio i fodloni cyfarwyddebau polisi gwastraff yr UE, fel rhan o'r polisi cyffredinol ar reoli gwastraff, er mwyn i Gymru fedru byw o fewn ei therfynau amgylcheddol.

Yn y brîff hwn mae trosolwg o'r gwahanol ffynonellau o wastraff bwyd, costau ariannol ac amgylcheddol y gwastraff a gynhyrchir, a thargedau a mesurau cyfredol i leihau ac ailddefnyddio'r gwastraff.

## Mathau o Wastraff Bwyd


Wrth ystyried i ba raddau y mae modd arbed arian, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd drwy leihau gwastraff a'i ailddefnyddio, diffiniwyd tri math gwahanol o wastraff bwyd:[1]

- Pethau y mae modd osgoi eu gwastraffu – bwyd a diod a oedd yn iawn i'w fwyta ar ryw adeg cyn iddo gael ei daflu. (Mae 4.4 miliwn o dunelli yn cael eu gwastraffu mewn cartrefi bob blwyddyn.)
- Pethau y gellid, o bosibl, osgoi eu gwastraffu - bwyd a diod y bydd rhai pobl yn eu bwyta ond nid eraill, neu fwyd a diod y gellid eu bwyta pan gaiff bwyd ei baratoi mewn ffordd benodol, ond nid mewn ffordd arall (ee crystiau bara neu grwyn tatws). (Mae 1.4 miliwn o dunelli yn cael eu gwastraffu mewn cartrefi bob blwyddyn.)
- Pethau nad oes modd osgoi eu gwastraffu - gweddillion prosesau paratoi bwyd, na ellir eu fwyta mewn amgylchiadau arferol (e.e. plisg wyau neu fagiau te). (Mae 1.4 miliwn o dunelli yn cael eu gwastraffu mewn cartrefi bob blwyddyn.)

## Ffynonellau o Wastraff Bwyd

Mae gwastraff bwyd yn deillio o dair prif ffynhonnell: cartrefi, y gadwyn gyflenwi fanwerthol a'r sector lletygarwch. Yn ffigur 2, dangosir cyfran y gwastraff sy'n deillio o'r tair ffynhonnell hon yn y DU.

**Ffigur 2: Ffynonellau o wastraff bwyd yn y DU 2009-2012[2] (Noder nad yw ffigurau'r sector costau ar gael, felly maent wedi'u hamcangyfrif o dan "arall")**




O'r tair ffynhonnell, bwyd o gartrefi yw'r rhan fwyaf o'r gwastraff, ac mae'n cyfrif am tua hanner yr holl wastraff yn y DU. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae hyn tua 400,000 o dunelli yng Nghymru yn unig, ac mae llai nag un rhan o bump ohono'n wastraff na ellir osgoi ei greu.[3]

[1] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **New estimates for household food and drink waste in the UK**, Tachwedd 2011 [fel ar 3 Hydref 2013]

[2] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **UK Handy facts and Figures**, 2013 [fel ar 15 Hydref 2013]

[3] Llywodraeth Cymru, Yr Amgylchedd a Chefn Gwlad, Gwastraff ac Ailgylchu, Atal a Lleihau, **Atal Gwastraff Bwyd** [fel ar 15 Hydref 2013]

Mae'r gadwyn gyflenwi fanwerthol yn cynnwys colledion wrth weithgynhyrchu a chynhyrchu bwyd, yn ogystal â cholledion mewn siopau. Mae hyn yn cyfrif am tua chwarter yr holl wastraff bwyd, ac mae'r rhan fwyaf ohono'n digwydd yn ystod y broses gynhyrchu.

Caiff gweddill y gwastraff bwyd ei gynhyrchu yn y sector lletygarwch a gweini bwyd, ynghyd â ffynonellau eraill (e.e. cyn cyrraedd y ffatri, neu fel sbwriel). Mae'r sector lletygarwch a gweini bwyd yn cynnwys gwestai, tafarndai, bwytai a'r sector costau (a ddiffinnir fel sefydliadau lle mae darparu bwyd yn ategol i brif swyddogaeth y sefydliad e.e. ffreuturau ysgolion a swyddfeydd, ysbytai, darparu bwyd i'r lluoedd arfog).

## Graddfa'r Gwastraff Bwyd

Yn y DU, amcangyfrifir bod 15 miliwn tunnell o fwyd yn cael ei wastraffu bob blwyddyn.[4] Yng Nghymru, ar gyfartaledd, mae'n cyfrif am draean cynnwys y biniau du domestig, a fydd yn cael eu taflu i safleoedd tirlenwi.[5]

Mae hyn yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd - mae gwastraff bwyd sy'n cael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi yn pydru ac yn rhyddhau methan. Nwy tŷ gwydr yw methan, ac mae 23 gwaith yn fwy pwerus na charbon deuocsid[6]. Mae'r allyriadau carbon deuocsid cyfatebol sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, dosbarthu, storio, defnyddio a gwaredu bwyd sy'n cael ei wastraffu o gartrefi yn cyfateb i allyriadau un o bob pump o'r ceir ar ein ffyrdd.[7]

Heblaw'r effaith amgylcheddol, mae'r gwastraff hwn yn costio'n ariannol hefyd. Ledled y DU amcangyfrifir y gallai 60% o'r bwyd sy'n cael ei wastraffu yn ein cartrefi fod wedi'i fwyta. Mae hyn yn costio £12 biliwn y flwyddyn, neu tua £480 y flwyddyn i'r cartref cyffredin.[8]

[4] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **UK Handy Facts and Figures** [fel ar 7 Hydref 2013]
[5] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **The composition of municipal solid waste in Wales**, Mai 2011 [fel ar 7 Hydref 2013]
[6] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **New estimates for household food and drink waste in the UK**, Tachwedd 2011 [fel ar 3 Hydref 2013]
[7] Craff am Wastraff Cymru, Adfer Gwastraff, **Dewisiadau Technolegol** [fel ar 7 Hydref 2013]
[8] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **New estimates for household food and drink waste in the UK**, Tachwedd 2011 [fel ar 3 Hydref 2013]

## Polisi a Strategaeth y Llywodraeth

Mae deddfwriaeth Ewropeaidd a deddfwriaeth y DU, ill dwy, yn dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o *Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC*[9] yn cynnwys "hierarchaeth gwastraff", sydd â phum cam wedi'u trefnu yn ôl eu heffaith ar yr amgylchedd. Ar frig y rhestr mae atal (sy'n effeithio leiaf ar yr amgylchedd), ac ar y gwaelod mae gwaredu (sy'n effeithio fwyaf ar yr amgylchedd). Yng *Nghyfarwyddeb Tirlenwi 1991/31/EC*[10] mae targed ar gyfer lleihau swm y gwastraff bioddiraddiadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi. Y targed hwnnw yw 35% o lefel 1990. Mae *Deddf Newid Hinsawdd 2008*[11] y DU yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfrif carbon y DU yn cael ei ostwng 80% erbyn 2050, o gymharu ag 1990.

Mae dogfen strategaeth wastraff gyffredinol Llywodraeth Cymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*[12], yn cwmpasu'r cyfarwyddebau a'r targedau hyn. Nodau'r strategaeth, yn nhrefn blaenoriaeth, yw lleihau maint y gwastraff, ac yna ailgylchu neu ailddefnyddio'r hyn a gynhyrchir. Mae hefyd yn cynnwys targedau penodol. Mae'r rheini'n cynnwys lleihau 1.5% (o linell sylfaen 2007) ar y gwastraff cyffredinol bob blwyddyn er mwyn cyrraedd y nod o leihau 65% ar y gwastraff erbyn 2050, ac ailgylchu/compostio cymaint â 70% o'r cyfanswm erbyn y flwyddyn 2025.

Gwnaed y targedau ailgylchu yn gyfreithiol-rwymol gan *Fesur Gwastraff (Cymru) 2010*[13] a chafodd swm y gwastraff trefol bioddiraddiadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi ei gyfyngu gan *Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004*[14] .

[9] **OJ L 312, 22.11.2008** [fel ar 14 Hydref 2013]
[10] **OJ L 182, 16.7.1999** [fel ar 14 Hydref 2013]
[11] **Deddf Newid Hinsawdd 2008** [fel ar 7 Hydref 2013]
[12] Llywodraeth Cymru, **Tuag at Ddyfodol Diwastraff**, Mehefin 2010 [fel ar 7 Hydref 2013]
[13] **Mesur Gwastraff (Cymru) 2010** [fel ar 15 Hydref 2013]
[14] **Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004** [fel ar 15 Hydref 2013]

## Cynlluniau Sectorol

Er mwyn cyrraedd y targedau hyn ar gyfer gwastraff cyffredinol, mae cyfres o gynlluniau sectorol yn cael eu gweithredu. Mae gwastraff bwyd yn nodwedd allweddol o'r *Cynllun Sector Trefol*[15] (sy'n ymwneud â phob gwastraff a gesglir gan Awdurdodau Lleol Cymru) a *Chynllun Drafft y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd*[16] (sy'n cwmpasu cwmnïau gweithgynhyrchu bwyd, y sector cyfanwerthu a manwerthu a'r sector gweini bwyd, ond sydd hefyd yn berthnasol i gartrefi oherwydd gall ddylanwadu ar y gwastraff a gynhyrchir).

Mae'r rhain yn pennu dull pedwar cam o weithredu:

- Atal gwastraff
- Paratoi i ailddefnyddio (llai pwysig yn achos gwastraff bwyd)
- Gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff i'w ailgylchu
- Trin a gwaredu

Mae cynllun gweithredu ar gyfer pob un o'r meysydd hyn.

Hefyd, mae *Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd*[17] yn targedu cwmnïau casglu gwastraff ac yn nodi'r dulliau i'w defnyddio i gynyddu swm y gwastraff a gesglir i'w ailgylchu.

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch *Rhaglen Atal Gwastraff*[18] i Gymru, fel a oedd yn ofynnol o dan fersiwn ddiwygiedig *Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC*[19]. Atal gwastraff oedd prif nod y Rhaglen hon, yn hytrach na chynyddu ailgylchu, a'i bwriad oedd cyfrannu at y Cynllun Gweithgynhyrchu Bwyd. Hefyd, adolygodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gwastraff Trefol, a daeth i'r casgliad nad oedd angen unrhyw gamau gweithredu newydd heblaw'r rhai yn y Cynllun Sector Trefol.

[15] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Sector Trefol: Rhan 1**, Mawrth 2011 [fel ar 7 Hydref 2013]
[16] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Drafft y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd : Dogfen Ymgynghori**, (Saesneg yn unig) Mawrth 2011 [fel ar 7 Hydref 2013]
[17] Llywodraeth Cymru, **Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd**, (Saesneg yn unig) Gorffennaf 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]
[18] Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad ar Raglen Atal Gwastraff i Gymru**, (Saesneg yn unig) Mawrth 2013 [fel ar 14 Hydref 2013]
[19] **OJ L 312, 22.11.2008** [fel ar 14 Hydref 2013]

Rhan allweddol o weithredu'r cynlluniau sectorol hyn yw gwaith y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau.

## Gweinyddiaethau Eraill

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi cynllun gwastraff, sef y *Zero Waste Plan*[20]. Mae targedau'r cynllun hwnnw yn debyg i rai Cymru, sef ailgylchu 70% o'r holl wastraff, ac anfon llai na 5% i safleoedd tirlenwi. Mae'r ddau darged i'w cyrraedd erbyn 2025.

Mae hefyd wedi cyflwyno *Rheoliadau Gwastraff (yr Alban) 2012*[21]. Mae hyn yn ei gwneud yn orfodol i fusnesau bwyd wahanu'r gwastraff bwyd o'r gwastraff arall erbyn 2014 (os cynhyrchir mwy na 50kg yr wythnos) neu 2016 (os cynhyrchir mwy na 5kg yr wythnos). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wahanu'r gwastraff bwyd o'r gwastraff arall ym mhob ardal drefol erbyn 2016.

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn ymgynghori ar Raglen Atal Gwastraff[22] a Chyfyngiadau ar Dirlenwi Gwastraff Bwyd, sydd i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2013.[23] Mae hefyd wedi cyhoeddi strategaeth ddiwygiedig ddrafft ar reoli gwastraff yng Ngogledd Iwerddon[24] sy'n cyfyngu ar y gwastraff bwyd y gellir ei anfon i safleoedd tirlenwi, ac sy'n cyflwyno targedau gwastraff cyffredinol eraill.

Nododd Llywodraeth y DU fod gwastraff bwyd yn flaenoriaeth yn y *Review of Waste Policy in England*[25] a bu'n ymgynghori ar Raglen Wastraff ar gyfer Lloegr.[26] Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Medi 2013 a bwriedir cyhoeddi'r rhaglen ym mis Rhagfyr 2013.

[20] Llywodraeth yr Alban, Zero Waste Plan, Mehefin 2010 [fel ar 15 Hydref 2013]
[21] **The Waste (Scotland) Regulations 2012** [fel ar 1 Hydref 2013]
[22] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, **Draft Waste Prevention Programme for Northern Ireland**, Medi 2013 [fel ar 15 Hydref 2013]
[23] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, **Consultation on the introduction of restrictions on the landfilling of food waste**, Medi 2013 [fel ar 15 Hydref 2014]
[24] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Draft revised Northern Ireland Waste Management Strategy, 2013 [fel ar 17 Hydref 2013]
[25] Llywodraeth y DU, **Review of Waste Policy in England 2011**, [fel ar 15 Hydref 2013]
[26] Llywodraeth y DU, **Waste Prevention Programme Consultation**, Awst 2013 [fel ar 15 Hydref 2013]

## Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau

Cwmni dielw yw'r Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, a ariennir ar y cyd gan DEFRA, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a'r UE. Mae'n gweithio ledled y DU i roi cymorth i fusnesau, cymunedau ac awdurdodau lleol, ac unigolion er mwyn annog mwy o ailgylchu a llai o wastraff.

Mae wedi rhoi tair rhaglen ar waith, fel y nodir isod, ac mae pob rhaglen yn targedu un o'r tair ffynhonnell o wastraff bwyd.

### Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff[27]

Mae'r Ymgyrch Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff yn cael ei hyrwyddo yng Nghymru ar y cyd â'r Cynllun Craff am Wastraff (ymgyrch genedlaethol sy'n hybu newid yn ymddygiad defnyddwyr at wastraff.) Mae'r ymgyrch yn targedu unigolion a chartrefi er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr angen am weithredu i leihau gwastraff, ac mae'n rhoi cyngor ynghylch sut mae gwneud hyn.

Mae'r cyngor yn amrywio ac mae'n cynnwys y canlynol: ryseitiau a chynlluniau siopa am fwyd, dulliau diogel o storio bwyd er mwyn ymestyn ei oes a lleihau'r defnydd ohono, a syniadau a chynlluniau ar gyfer trefnu "wythnos Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff" er mwyn codi ymwybyddiaeth o fewn sefydliad neu gymuned.

### Ymrwymiad Courtauld[28]

Cytundeb gwirfoddol yw Ymrwymiad Courtauld sy'n targedu'r sector bwyd (gan gynnwys manwerthwyr, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr). Y nod yw defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff. Caiff ei ariannu gan bedair llywodraeth y DU ac mae'n cefnogi eu nodau o wireddu'r targed polisi o sicrhau "economi diwastraff" a bodloni amcanion *Deddf Newid Hinsawdd 2008* i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Dechreuodd trydydd cyfnod yr Ymrwymiad ym mis Mai 2013, a fydd yn parhau tan 2015. Cynhaliwyd y cyfnod cyntaf rhwng 2005 a 2010, a'r ail gyfnod rhwng 2010 a 2012. Hyd yma mae 49 wedi llofnodi'r Ymrwymiad, gan gynnwys pob un o'r prif archfarchnadoedd.

Yn y trydydd cyfnod mae targedau i leihau 5% ar y bwyd a'r diod sy'n cael ei wastraffu, a lleihau 3% ar gynhwysion, cynnyrch a deunydd pacio yn y gadwyn gyflenwi erbyn 2015, o gymharu â llinell sylfaen 2012. Mae deunydd pacio arloesol, a all ymestyn oes cynnyrch, yn cael ei ddefnyddio i gwrdd â'r ddau darged hyn. Mae amrywiadau eraill yn y deunydd pacio (e.e. pecynnau o faint gwahanol, cael gwared â labeli sy'n drysu, fel dyddiadau 'arddangos tan') ac ymgyrchoedd sydd gan fanwerthwyr i leihau gwastraff (e.e. ymgyrch cwmni Sainsbury "Make Your Roast Go Further"[29] ac ymgyrch cwmni Morrisons "Great Taste Less Waste"[30]) yn cael eu defnyddio i gyrraedd targedau lleihau gwastraff o gartrefi.

### Cytundeb y Sector Lletygarwch a Gweini Bwyd[31]

Cytundeb gwirfoddol dros y DU gyfan yw Cytundeb y Sector Lletygarwch a Gweini Bwyd, a lansiwyd ym mis Mehefin 2012. Mae'r cytundeb yn targedu bwytai, tafarndai, gwestai a chyrff masnachu eraill, yn ogystal â chwmnïau arlwyo ar gontract sy'n gwasanaethu cleientiaid, fel awdurdodau lleol, y GIG, y Weinyddiaeth Amddiffyn a ffreuturau staff mewn swyddfeydd a ffatrïoedd. Mae ganddo dargedau i leihau 5% ar wastraff bwyd a deunydd pacio erbyn 2015 (o gymharu â llinell sylfaen 2012, ac fel gostyngiad yn yr allyriadau carbon deuocsid cyfatebol), ac i gynyddu 70% ar wastraff a anfonir i'w ailgylchu, ei dreulio'n anaerobig neu ei gompostio.

I gyflawni hyn, mae'r Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau yn nodi pedwar grŵp gwahanol: busnesau bach a mawr, arlwywyr a chyflenwyr ar gontract. Mae'n rhoi gwybodaeth ar gyfer pob grŵp ac yn rhoi cyngor a chymorth technegol i'w helpu i gofnodi'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu, yn ogystal â dulliau o'i leihau (e.e. rhannu arferion da mewn diwrnodau hyfforddi a rhoi cyfle i unigolion, defnyddwyr a staff ddefnyddio deunyddiau cyfathrebu profedig).

---

[27] **Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff Cymru** [fel ar 7 Hydref 2013]
[28] Y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, Bwyd, **Ymrwymiad Courtauld** [fel ar 4 Hydref 2013]
[29] Sainsbury's, Live Well For Less, Meal Planning, **Make Your Roast Go Further** [fel ar 17 Hydref 2013]
[30] Morrisons, Food and Drink, **Great Taste Less Waste** [fel ar 17 Hydref 2013]
[31] Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau, **Hospitality and Food Service: WRAP's Work** [fel ar 7 Hydref 2013]

## Casglu Gwastraff Bwyd, a'i Drin

Yn ogystal â lleihau gwastraff bwyd, mae ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio yn bwysig wrth ystyried yr 20% o fwyd na ellid osgoi ei wastraffu. Erbyn hyn, mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu ar wahân o fwyafrif (93%) y cartrefi yng Nghymru. Cesglir tua 39% o'r gwastraff bwyd er mwyn ei ddefnyddio mewn rhaglenni troi gwastraff yn ynni.[32]

Y dull a ffefrir gan Lywodraeth Cymru (a Llywodraeth y DU) o drin gwastraff bwyd a'i droi yn ynni yw treulio anaerobig. Nid oes ocsigen yn y broses hon, ac felly mae'r gwastraff yn cael ei ddadelfennu gan facteria ac yn creu bio-nwy (sy'n adnewyddadwy). Mae modd llosgi'r bio-nwy i gael gwres a thrydan, a gellir defnyddio'r gweddillion (digestate) i roi maethynnau yn ôl yn y pridd, gan leihau'r ddibyniaeth ar wrtaith artiffisial.

Mae pecyn cymorth ariannol ar gael i awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu technoleg treulio anaerobig. Amlinellir y strategaeth gaffael yn y ddogfen ganlynol: *Rhaglen Trin Gwastraff Bwyd – Strategaeth Gaffael f2.5*[33]. Mae saith canolfan gaffael wedi'i ffurfio o'r awdurdodau lleol i gaffael prosesau trin gwastraff ar y cyd. Nid yw Ynys Môn, Wrecsam, Caerdydd a Sir Fynwy yn rhan o'r cynlluniau hyn gan fod ganddynt fesurau trin gwastraff priodol eisoes.

[32] Datganiad i'r Wasg, **Cynllun Craff am Wastraff** [fel ar 4 Hydref 2013]
[33] Llywodraeth Cymru, **Rhaglen Trin Gwastraff Bwyd – Strategaeth Gaffael f2.5** [fel ar 7 Hydref 2013]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Wastraff Bwyd**, cysylltwch â **Matthew McLeod** (**Matthew.Mcleod@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil, neu **Chloe Corbyn** (**Chloe.Corbyn@cymru.gov.uk**), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost i **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gynghori'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 13/2900**